Adra



# NEWYDDLEN HAF 2023

## Balchder yn ein cymunedau

Fis diwethaf, ymunodd cynrychiolwyr o Adra â channoedd o bobl mewn gorymdaith i gefnogi Balchder Gogledd Cymru.

Sefydlwyd y digwyddiad yn 2011 ac mae'r ŵyl yn dod â phobl ynghyd, yn enwedig y rhai sydd efallai'n teimlo'n ynysig mewn ardaloedd gwledig, gan greu amgylchedd cefnogol a chroesawgar. Trwy gerddoriaeth fyw, perfformiadau, a gorymdaith, nod Balchder Gogledd Cymru yw hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, a meithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn i bob unigolyn.

**Roedd Adra wrth ei bodd yn cefnogi'r digwyddiad ac yn dangos nad oes lle i wahaniaethu mewn cymunedau.**

### In this edition:

**Launch of Your Voice** how to get involved – p.3

**Out and about in our communities** – p.4

**Spotlight on our Warden Service** – p.7

# Prif Weithredwr newydd wrth y llyw

Iwan Trefor Jones yw ein Prif Weithredwr newydd ac mae wedi dechrau yn ei swydd yn dilyn ymddeoliad Ffrancon Williams ar ôl 13 mlynedd wrth y llyw. Mae Iwan wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ymateb i anghenion tenantiaid a chymunedau.

Bu Iwan yn Ddirprwy Brif Weithredwr i Adra am nifer o flynyddoedd ac mae ganddo brofiad helaeth o weithio mewn llywodraeth leol a'r sector tai, yn ogystal â bod yn gyn aelod o Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru lle cyfrannodd yn sylweddol at y gwaith o ddatblygu economi'r rhanbarth.



Ychwanegodd Iwan: "Rwy'n falch iawn o gael fy mhenodi'n Brif Weithredwr Adra. Bydd yn heriol dilyn yn ôl troed Ffrancon. Mae wedi gweithio'n galed iawn dros y blynyddoedd i arwain Adra ymlaen i'r sefyllfa hynod gadarn sy'n bodoli heddiw.

"Rwy'n edrych ymlaen at adeiladu ar yr holl waith da sydd wedi digwydd a byddaf yn sicrhau ein bod ni fel cwmni yn cadw at ein gwerthoedd wrth i ni ddatblygu i fod yn un o gwmnïau mwyaf blaengar Cymru, ac yn gwmni sy'n agosach i'w gymunedau."

# Ffyrdd o gysylltu â ni

Oeddech chi'n gwybod ein bod ni wedi newid oriau agor ein swyddfeydd, yn ogystal â'n Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, i gwrdd â'r galw gan y cyhoedd.

Mae ein swyddfeydd yn Stryd Penlan, Pwllheli; Canolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau; Tŷ Coch, Parc Menai, Bangor a Tŷ Gwyrddfai, Penygroes nawr ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid oes angen apwyntiad.

**Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar agor o 8am tan 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.**

Oeddech chi'n gwybod mai'r dyddiau prysuraf ar ein ffonau yn y Ganolfan gyswllt yw dydd Llun a dydd Mawrth? O ganlyniad, rydych yn llawer mwy tebygol o ddod drwodd atom yn gynt trwy gysylltu â ni rhwng dydd Mercher a dydd Gwener.

Ac a oeddech chi hefyd yn gwybod bod gennym ni wasanaeth cysyltu yn ôl? Hynny yw, os ydych chi'n aros am amser hir i'ch galwad ffôn fynd drwodd, gallwch ddefnyddio gwasanaeth galw'n ôl, lle rydych chi'n dewis opsiwn i ni eich ffonio chi'n ôl ond nid ydych chi'n colli'ch lle yn y ciw, ac mae'n yn rhyddhau amser i chi wneud pethau eraill.

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy e-bost yn hytrach na ffonio: **ymholiadau@adra.co.uk**



# Tenantiaid wrth galon gwaith Adra

Mae rhoi llais cryf i denantiaid yn y modd y caiff ein gwasanaethau eu datblygu yn un o egwyddorion dogfen newydd o'r enw Eich Llais. Mae 'Eich Llais' yn annog mwy o amrywiaeth o gyfraniadau ac yn croesawu barn y rhai sydd â phrofiad o fyw neu ddiddordebau penodol. Bydd mwy o sylw ar lwyfannau digidol i ymgysylltu â thenantiaid, ond hefyd ymweliadau wyneb yn wyneb, cyfarfodydd llai ffurfiol a mwy o gyfleoedd i gwrdd â Bwrdd Adra.

**Dywedodd Hywel Eifion Jones, Cadeirydd Bwrdd Adra:**

"Fel Bwrdd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwrando ar ein tenantiaid a'r rhan hanfodol y mae eu hadborth wedi'i chwarae yn natblygiad a llwyddiant Adra ers 2010. Ym mis Ebrill 2022, fe wnaethom lansio ein Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ein hegwyddorion sylfaenol a'r nodau allweddol yr ydym am eu cyflawni erbyn 2025. Yn y Cynllun, rydym yn amlygu ein cefnogaeth barhaus i gyfranogiad tenantiaid drwy ymrwymo i "deilwra ein gwasanaethau i ymateb i anghenion ein cwsmeriaid , pwy fydd wrth galon yr hyn a wnawn" a hefyd "Gwella sut rydym yn gwrando ac yn gweithredu" ar ran ein tenantiaid.

Os hoffech ragor o wybodaeth am gyfranogiad yn y dyfodol neu os hoffech ymuno â Phanel Cwsmeriaid Adra, cysylltwch â ni: **cymunedol@adra.co.uk**



# Heidio i'r Eisteddfod a'r Sioe

Mae Adra yn mynd ar daith i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan ym mis Awst (5-12) a byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno.

Byddwn yn achub ar y cyfle i hyrwyddo ein gwaith cymunedol, yr hyn sy'n digwydd yn Nhŷ Gwyrddfai gyda'r hwb datgarboneiddio, cyfleoedd gydag Academi Adra, gyrfaoedd o fewn y sefydliad ac ymgyrch i ddenu mwy o fenywod i'r sectorau tai ac adeiladu.

Yn ystod yr wythnos, byddwn hefyd yn cynnal arddangosfa o'r enw Balchder Bro a fydd yn cynnwys lluniau o'n gwaith cymunedol a bydd llwyth o weithgareddau i'r teulu cyfan drwy gydol yr wythnos. Dewch draw I'n gweld.

Ac os ydych yn ymweld â Sioe Meirion yn Nhalsarnau ar ddydd Mercher 23 Awst, byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd ac yn hyfforddi gydag Adra, felly dewch i'n gweld am sgwrs ac i ddarganfod mwy.



## Dod i adnabod ein cymunedau a'n tenantiaid

Roedd yn wych mynd allan yn y gymuned eto ar gyfer y diweddaraf yn ein rhaglen cerdded o amgylch yr ystâd.

Ers mis Chwefror, rydym wedi ymweld a thenantiaid yn Nolgellau, Penmaenmawr, Deganwy, Dyffryn Ardudwy, Ynys, Abergele, Sychnant a'r Groeslon. Y bwriad yw ymweld a 400 o gartrefi ychwanegol ym Mwllheli, Bangor a Chaernarfon dros y misoedd nesaf.

Mae rhaglen o ymweliadau ar waith ar gyfer gweddill 2023.

Dywedodd Sion Eifion Jones, Swyddog Prosiectau Cymunedol Adra: "Mae'r teithiau stad yn gyfleoedd gwych i ddod i adnabod ein tenantiaid a'n cymunedau.

"Mae'n gyfle i'n tenantiaid dynnu sylw at unrhyw broblemau, o unrhyw eitemau sydd wedi torri yn y cartref i bryderon cymunedol. Rydym hefyd yn cynnig cyngor a chefnogaeth gan ein wardeniaid ynni, cyfleoedd ar gyfer swyddi a chyfleoedd hyfforddi a darganfod sut y maent yn dymuno cyfathrebu â ni yn y dyfodol".

**PARCH**

**RESPECT**

## Rhaid parchu ein gilydd

Mae rhan fwyaf o gwsmeriaid yn dangos parch ac urddas tuag at staff Adra ac rydym yn gwerthfawrogi hyn. Diolch.

Ond mae Adra wedi derbyn rhai adroddiadau ac achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn erbyn staff sy'n gweithio ar y rheng flaen. Mae hynny wedi cynnwys gweiddi, rhegi, ymddwyn yn fygythiol ac aflonyddu staff. Mae hwn yn gwbl annerbyniol a ni fyddwn yn goddef hyn.

Mae angen i ni barchu ein gilydd. Diolch am eich cydweithrediad.

**Dweud NA wrth ymddygiad gwrth-gymdeithasol.**

## Sut rydym yn cyfathrebu â chi

Yn ddiweddar, rhoesoch rywfaint o adborth i ni ar y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â chi. Y cylchlythyr hwn, datganiadau rhent, wyneb yn wyneb a chyfryngau cymdeithasol oedd y prif ffynonellau gwybodaeth i chi.

**O ganlyniad, byddwn yn rhoi mwy o ffocws ar y sianeli hyn i roi gwybod i chi.**

Dywedasoch hefyd fod gennych ddiddordeb mewn gwybodaeth am gymorth ynni, costau byw a buddsoddi mewn stoc presennol/adeilad newydd. Dywedodd nifer ohonoch y byddech yn hapus i gymryd rhan mewn grŵp gorchwyl a gorffen i drafod cynnwys y straeon rydym yn eu rhannu. Byddwn mewn cysylltiad yn fuan i drefnu cyfarfod.



# Helpu pobl i fyd gwaith

Nod Adra yw cefnogi 500 o bobl i gael gwaith a hyfforddiant rhwng 2022 a 2025.

Cefnogwyd 134 o bobl i gyflogaeth a hyfforddiant yn 2022/23: cefnogwyd 80 o'r rheini drwy recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu drwy ein contractau; cefnogwyd 43 trwy Academi Adra; Cefnogwyd 8 gyda phrentisiaethau a hyfforddeiaethau o fewn Adra a phenodwyd 3 o'n tenantiaid.

**Yn 2022/ 2023 fe wnaethom gynnal 6 chwrs (5 cwrs adeiladu ac un cwrs gwasanaethau cwsmeriaid).**

O ganlyniad, mae 4 o bobl wedi mynd i gyflogaeth llawn amser yn dilyn y cyrsiau – tri ohonynt yn Adra, a'r llall gydag un o'n partneriaid adeiladu.



**Un o'r bobl a gafodd gymorth drwy Academi Adra yw Delyth:**

"Ces i fy niswyddo ychydig cyn Nadolig 2022, felly ces i olwg ar wefan Adra am swyddi a des i ar draws y cwrs Gwasanaeth Cwsmer – felly es i amdani! Mwynheais y cwrs yn fawr – dysgais gymaint a dod i adnabod llawer o bobl newydd. Mae cymryd rhan wedi rhoi cymaint mwy o hyder i mi ac wedi bod yn 'agoriad llygad' go iawn rwy'n gobeithio y bydd cyfle i aros ymlaen o fewn tîm Gwasanaeth Cwsmer Adra fel y gallaf barhau i ddysgu a bod yno i helpu pobl. "

## Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau

Dechreuodd 8 unigolyn brentisiaeth neu hyfforddeiaeth gydag Adra yn 2022/2023:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | prentisiaeth saer | 1 | prentisiaeth plymio | 2 | prentisiaeth plastro |
| 1 | saer dan hyfforddiant | 1 | prentis TGCh | 1 | hyfforddai plymio a gwresogi |







# Wardeniaid cymunedol

Mi gychwynodd y gwasanaeth nol yn 2007 gyda dau warden, yn bennaf yn delio gyda ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Er mwy creu cymunedau cryfach a diogel, ychwanegwyd wardeniaid newydd, un i wasanaethu ardal Meirionydd, un ar gyfer Dwyfor a'r llall ar gyfer ardaloedd gwledig yng ngogledd y sir. Bellac mae un warden hefyd yn gweithio yn ardal y Gogledd Ddwyrain, wrth I Adra greu datblygiadau tai newydd ar draws y Gogledd.

**Mae gwaith y wardenaid yn cynnwys elfennau o reolaeth tenantiaid, gan fod yn lygaid a chlustiau ar gyfer y cwmni.**

Bydd y Wardeiniaid yn gwneud cyswllt i groesawu pob tenant newydd, ac yn egluro y byddent yn cadw cysylltiad drwy ymweliadau pellach ar 3, 6 a 9 mis, i gynnig cefnogaeth a sicrhau nad oes unrhyw broblemau yn codi efor denantiaeth.

Mae'r tim wedi trefnu a chymeryd rhan mewn diwrnodau amgylcheddol rheolaidd i wella stadau yn ogystal a phrosiectau i annog gwell iechyd meddwl a chynhwysiad cymdeithasol gan denantiaid a thrigolion o fewn ein cymunedau.

Mae gwaith partneriaeth yn ganolog i'w gwaith nhw hefyd. Mae gan pob swyddog rwydwaith o gysylltiadau o fewn Gwasanaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan ac Achub, adrannau'r Cyngor, ysgolion a grwpiau cymunedol. Y rhwydweithiau yma sydd yn galluogi ni gyfrannu I'r Strategaeth Cymunedol.

Gyda eithriad i'r wardeiniaid sydd yn gwasanaethu Dinas Bangor a Tref Caernarfon, mae pob Warden bellach yn gweithredu amserlen "dyddiau tref" penodol, gyda galwadau, archwiliadau ac ymweliadau ystadau i gyd yn cael i gwneud ar un diwrnod mewn un ardal ble ma'n caniatau.

Gall unrhyw denant sydd eisiau gwybod mwy am pryd mae'r warden yn eu hardal nhw neu drefnu ymweliad yn y cartref wneud hynny trwy gysylltu a Gwasanaeth Bro ar **0300 123 8084** neu **ymholiadau@adra.co.uk**

**In the next issue we will introduce you to the wardens.**



# Diogelwch yr Haf gydag Adra

**Rydym am i chi gael haf pleserus a diogel.**

Mae'r tywydd poeth yn dod â nifer o beryglon, a dylech ddilyn diogelwch tân ymarferol a chywir i'ch cadw'n ddiogel

## Diogelwch Barbeciw

- Sicrhewch fod eich barbeciw mewn cyflwr diogel yw ddefnyddio.
- Sicrhewch fod eich safle barbeciw ymhell oddi wrth adeiladau, ffensys, coed a llwyni.
- Cadwch blant ac anifeiliaid anwes i ffwrdd o'r ardal goginio.
- Peidiwch byth â gadael y barbeciw heb oruchwyliaeth
- Peidiwch ag yfed a choginio.
- Pan fyddwch wedi gorffen coginio, gwnewch yn siŵr bod y barbeciw yn oer cyn ceisio ei symud
- Cadwch fwced o ddŵr, bwced o dywod neu bibell ddŵr gardd gerllaw rhag ofn y bydd argyfwng.
- Defnyddiwch farbeciw yn yr awyr agored yn unig.



## Barbeciw siarcol

- Defnyddiwch ddigon o siarcol yn unig i orchuddio gwaelod y barbeciw i ddyfnder o tua 50mm.
- Peidiwch byth â rhoi llwch barbeciw yn syth mewn bin sbwriel neu fin olwynion. Os ydyn nhw'n boeth, gallant doddi'r plastig ac achosi tân.
- Gwagiwch lwch oer ar bridd yn yr ardd

## Barbeciw nwy

- Sicrhewch fod y tap wedi'i ddiffodd cyn ceisio newid y silindr nwy.
- Newidiwch silindrau nwy yn yr awyr agored.
- Unwaith y byddwch wedi gorffen coginio, trowch y silindr nwy i ffwrdd cyn y rheolyddion nwy, i sicrhau bod unrhyw nwy sydd ar y gweill yn cael ei ddefnyddio.

## Storio Silindr Nwy

- Storio silindrau nwy yn ddiogel.
- Cadwch silindrau nwy i ffwrdd o rew a golau haul uniongyrchol.
- Dychwelyd yr holl silindr nwy gwag i'r cyflenwr.

# Mae Sophie yma i'ch helpu

Mae'r argyfwng Costau byw yma o hyd. Ond mae ein staff cyfeillgar, profiadol ni yn llawn gwybodaeth ac yma i'ch helpu chi.

Os rydych yn poeni am dalu eich biliau mis yma, mae Sophie, ein Cydlynydd Lles Ariannol newydd, yn un aelod o'n Tîm a all eich helpu.

Ffoniwch ni heddiw, a gallwn drefnu cyfarfod gyda chi i drafod eich opsiynau a'ch cyfeirio i'r cyfeiriad cywir.



Cysylltwch â ni heddiw
**0300 123 8084**
**ymholiadau**@adra.co.uk